



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gwaun Gynfi
Deiniolen
Gwynedd
LL55 3LT**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/11/2013

Cyd-destun

Ysgol Gynradd naturiol Gymraeg yw Ysgol Gynradd Gwaun Gynfi. Fe'i lleolir ym mhentref gwledig Deiniolen sydd rhyw saith milltir o dref Caernarfon. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r ardal leol ynghyd â phentrefi cyfagos. Daw o dan ofal awdurdod lleol Gwynedd.

Mae 165 o ddisgyblion ar y gofrestr sy'n cynnwys 24 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn saith dosbarth, yn cynnwys dosbarth meithrin rhan-amser. Mae tua 25% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw tua 79% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.

Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r nod o'u cael yn ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd yn 11 oed.

Mae tua 40% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer bach o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Hydref 2007. Penodwyd y pennaeth presennol ym mis Medi 1996.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gwaun Gynfi yn 2013-2014 yw £4,124. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Gwaun Gynfi yn safle 50fed o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn hapus, yn ymddwyn yn dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- bod canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymharu'n dda gyda chanlyniadau ysgolion tebyg a ffigurau Cymru gyfan dros gyfnod o bedair blynedd;
- bod cyfraddau presenoldeb yn gyson uwch nag mewn ysgolion tebyg;
- bod staff yn cynllunio profiadau eang sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion; a
- bod ansawdd yr addysgu yn effeithiol.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles plant;
- bod y pennaeth yn llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr;
- bod y dirprwy a'r tîm rheoli yn cefnogi gwaith y pennaeth yn effeithiol i sicrhau ymdeimlad o waith tîm ymhlith yr holl staff;
- bod hunan arfarnu wedi ei sefydlu'n gadarn, ac yn galluogi'r ysgol i adnabod yn gywir ei chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella; a
- bod cynlluniau gwella yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau.

Argymhellion

- A1 Mireinio'r gweithdrefnau asesu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yn well yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith
- A2 Sicrhau cysondeb yn y dulliau cynllunio tymor byr yng nghyfnod allweddol 2
- A3 Datblygu ymhellach yr ardal allanol er mwyn hybu addysg yn yr awyr agored
- A4 Datblygu rôl y llywodraethwyr yn y broses hunan arfarnu er mwyn eu galluogi i herio'r ysgol yn briodol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y llywodraethwyr yn gyfrifol am lunio cynllun gweithredu sy'n esbonio sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gywir, yn naturiol ac yn hyderus tra wrth eu gweithgareddau yn y dosbarth ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Mae gan y rhan fwyaf eirfa eang ac maent yn defnyddio cystrawen naturiol wrth siarad. Mae'r rhan fwyaf yn medru darllen yn ystyrlon i safon sydd o leiaf yn briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol yn lled gywir at wahanol ddibenion ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn medru cynnal sgwrsiau mewn modd aeddfed yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa raenus a naturiol wrth sgwrsio am eu gwaith ynghyd â materion eraill sydd o ddiddordeb iddyn nhw. Mae'r mwyafrif yn medru mynegi barn mewn modd aeddfed am ystod o destunau. Mae'r rhan fwyaf yn medru darllen yn ystyrlon, gan fynegi barn am lyfrau, a disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn y straeon. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu'n estynedig i safon uchel ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm, gan atalnodi'n gywir a chyfleu syniadau yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys llythyr i holi am gymorth mewn daearyddiaeth a chofnodi amodau egino hadau mewn gwyddoniaeth, yn ogystal ag ysgrifennu straeon diddorol mewn gwersi iaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn medru darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i'w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n estynedig i safon uchel mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau gwranddo'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru trawsieithu'n effeithiol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 allweddol yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn dadansoddi gwrthrychau, trin data syml, defnyddio amser mewn gwahanol gyd-destunau, a mesur tyfiant planhigion yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion hŷn yn trafod data'n hyderus, gan lunio graffiau sy'n briodol at wahanol bwrpasau, er enghraifft amseru a chofnodi pellter mewn gwyddoniaeth, a chofnodi marwolaethau yn Oes Fictoria o gymharu â phobl yn yr ugeinfed ganrif.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac mae'r disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda iawn.

Yn 2012 a 2013, mae cyfran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn sylweddol uwch ym mhob maes dysgu o gymharu â'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn 2013.

O gymharu canlyniadau'r ysgol â rhai ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol wedi perfformio yn y 50% uchaf ar gyfer dangosydd y Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2013, roedd y gyfran o ddisgyblion a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig hefyd yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2013. Fodd bynnag, mae'r tueddiadau hyn yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar y lefel ddisgwyliedig â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a'r pynciau craidd ar wahân yn 2013. Er hynny, mae canlyniadau'r ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% isaf dros y pedair blynedd cyn hynny.

Lles: Da

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Ar draws yr ysgol, mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, anghyson yw gallu'r disgyblion i arwain eu dysgu eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo yn ddiogel yn yr ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at fyw a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau corfforol, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles.

Mae cyfraddau presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf yn arwyddocaol uwch na chyfraddau ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r canran hwn wedi bod yn gyson uwch nag ysgolion y teulu dros y pedair blynedd ddiwethaf ac ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim. Mae prydlondeb yn dda.

Mae llawer o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol o fewn cymuned yr ysgol. Maent yn elwa'n uniongyrchol o gysylltiadau cadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol ag ymwelwyr, ynghyd ag ymweliadau â'r gymuned leol, er enghraifft Canolfan Caergylchu. Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau eang sy'n ennyn a chynnal diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o allu uwch. Mae profiadau hyn yn seiliedig ar yr holl bynciau a meysydd dysgu, ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm, ac mae gan yr ysgol gynlluniau effeithiol i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd mewn modd strwythuredig dros y flwyddyn nesaf.

Mae darpariaeth effeithiol ar draws y cwricwlwm sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o gynladwyedd a dinasyddiaeth fyd eang, yn ogystal â rôl ac effaith dynoliaeth ar y byd. Mae'r elfen hon yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae safon modelu iaith raenus a chywir pob oedolyn, yn ogystal â'r ystod eang ac amrywiol o brofiadau cyfoethog a gynigia'r ysgol, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y safonau uchel y mae disgyblion yn eu cyrraedd.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn cwestiynu'n dreiddgar ac yn cyfeirio'n benodol at yr hyn mae disgyblion eisoes yn ei wybod, er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth a chodi eu safonau. Mae'r staff cymorth yn chwarae rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ar draws yr ysgol ac mae perthynas waith gadarnhaol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r cwricwlwm, ac maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd eu cynlluniau tymor byr yn anghyson ar draws cyfnod allweddol 2, ac mewn ychydig ddosbarthiadau, mae gordefnydd o daflenni gwaith.

Defnyddia'r athrawon ystod o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn lled effeithiol gan roi cyfleoedd i ddisgyblion hŷn i fyfyrion a chywiro gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn hybu annibyniaeth yn y dysgu. Caiff gwaith ysgrifenedig y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Er hynny, anghyson yw'r sylwadau adeiladol a roddir gan athrawon ar y gwaith. O ganlyniad, nid yw bob amser yn glir i'r disgyblion yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion gan ddefnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddarparu tasgau priodol iddyn nhw er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr, yn glir ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch tuag at ei gilydd. O ganlyniad, mae ethos gynhaliol yn bodoli sy'n sicrhau dysgu da.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth addas o flaengareddau sy'n datblygu agweddau o les y disgyblion yn effeithiol, gan hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Ceir polisïau a strategaethau disgyblaeth a gwrth fwlio effeithiol sy'n hyrwyddo lefelau uchel o ymddygiad a phresenoldeb yn llwyddiannus. Mae disgyblion a'r rhieni yn teimlo'n hyderus i gysylltu gydag aelodau o staff am gyngor ac arweiniad pan fo angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion yn gynnar ac yn cynllunio darpariaeth addas i safon uchel. Mae ansawdd y gefnogaeth ar gyfer disgyblion ag anableddau corfforol yn arbennig o effeithiol. Ceir amrywiaeth o gynlluniau anghenion unigol manwl sy'n cael eu rhannu gyda'r staff cefnogi a'r rhieni, ac sy'n cael eu monitro a'u hadolygu yn briodol yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth ac arweiniad asiantaethau allanol arbenigol. Mae ansawdd, ymroddiad ac arbenigedd aelodau o staff cefnogi yr ysgol o safon uchel.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cynhwysol, tawel a chroesawgar yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae pob un yn cyd-weithio'n effeithiol er mwyn helpu a chefnogi gwaith ei gilydd. Hyrwyddir amgylchedd sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un, lle mae'r staff yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y disgyblion, ac yn gweithredu'n briodol yn unol â'r wybodaeth hon. Mae staff yn sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol yn addas i ddisgyblion ag anableddau.

Mae staff a disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r manau cyhoeddus yn lliwgar ac yn cynnwys arddangosfeydd graenus o waith a llwyddiannau'r disgyblion, sy'n symbylu'r dysgu. Mae'r adeilad a'r iard chwarae yn fannau diogel, ac yn cael eu cynnal yn dda, gydag ardaloedd penodol o'r iard wedi eu clustnodi ar gyfer disgyblion o wahanol oed. Mae'r ardd eco newydd a gynlluniwyd gan y disgyblion, yn adnodd gwerthfawr i symbylu'r dysgu. Er hynny, nid yw'r ardal allanol wedi ei ddatblygu'n briodol i hybu addysg yn yr awyr agored.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?
--

Da

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles plant. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Caiff gefnogaeth dda gan y dirprwy a'r tîm rheoli. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir sy'n gyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Mae swydd

ddisgrifiadau'r staff yn glir ac maent yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r staff wedi rhoi cychwyn buddiol ar weithredu gofynion y Fframwiaeth Llythrennedd a Rhifedd ac mae hyn yn cael effaith bositif ar safonau y disgyblion, yn enwedig yn y Gymraeg. Cafodd medrau darllen Cymraeg eu targedu'n ddiweddar gan arwain at gynnydd arwyddocaol yn y safonau. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cyson ar berfformiad disgyblion a'u cyrhaeddiad. Maent yn dod yn fwy ymwybodol o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion eraill tebyg. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae gallu'r llywodraethwyr i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Mae'r arfer o hunan arfarnu wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o weithdrefnau wrth arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth dda i farn rhieni, a'r disgyblion.

Mae'r broses hunan arfarnu yn drylwyr, yn ddilys ac wedi ei seilio'n glir ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl iawn o ddata. Mae'r tîm arweinyddol yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y broses trwy greu adroddiadau cynhwysfawr am ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i sicrhau cefnogaeth briodol iddynt. Mae'r gweithdrefnau yma yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunan arfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol.

Mae cyswllt clir rhwng deilliannau'r weithdrefn hunan arfarnu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau. Mae holl athrawon yn deall y rhesymau sydd yn sail i'r blaenoriaethau ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb wrth eu gweithredu. Mae'r cynllun wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldeb staff yn glir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni priodol ar gyfer eu cwblhau. Mae trefniadau addas yn eu lle i arfarnu gwelliant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae perthynas gadarn a chydweithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni. Er hynny byddai ychydig o rieni yn gwerthfawrogi mwy o wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau a gweithgareddau cwricwlaidd yn dymhorol er mwyn iddynt gefnogi eu plant yn well.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol feithrin leol ac mae hyn yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan adeg cychwyn yn y dosbarth meithrin. Mae'r trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd yn gymwys ac yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch, drwy gyd safoni a chymedroli. Mae hyn wedi grymuso'r gwaith asesu yn effeithiol.

Mae perthynas dda gydag asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol.

Mae partneriaeth briodol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd â'r nifer helaeth o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda. Mae hefyd yn hyrwyddo'n effeithiol eu hymdeimlad o bwysigrwydd cymuned a'u balchder yn eu Cymreictod.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Manteisir yn llawn ar arbenigedd staff i gynnig profiadau dysgu diddorol. Enghraifft dda o hyn yw'r defnydd a wneir o arbenigedd athrawes allanol i addysgu cerdd. Defnyddia'r ysgol staff ategol yn effeithiol i gefnogi'r addysgu ac i ofalu a rhoi cymorth i'r disgyblion.

Rhoddir pwyslais priodol ar ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus i'r holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn ymhellach. Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol rhwng athrawon cyfnod allweddol 2 ac ysgolion eraill y dalgylch ar ysgrifennu ymestynnol wedi arwain at godi safonau'r disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu i sicrhau profiadau dysgu cymwys.

Mae cyflenwad ac effaith adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu yn cael eu hadolygu'n gyson a chynllunnir mewn da bryd ar gyfer anghenion y dyfodol. Fe wneir defnydd effeithiol o'r adeilad.

Rheolir gwariant yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Cyfnod Sylfaen

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r un peth yn wir am y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. Mae'r canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad mathemategol, a datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn cyflawni'n uwch na chyfartaleddau'r teulu ond yn is o gymharu â chyfartaleddau Cymru.

Yn 2012, roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd Cyfnod Sylfaen a'r lefel ddisgwyliedig yn y meysydd dysgu ar wahân yn cyflawni'n uwch na'r teulu o ysgolion tebyg a chyfartaleddau Cymru.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig (deilliant 6) mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn 2013. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad mathemategol ychydig yn uwch na'r teulu ond ychydig yn is na Chymru, ac mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn debyg i'r teulu ac ychydig yn is na Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol yn 2013 ar gyfer y lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. Mae'n perfformio yn y 50% uchaf o ran datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn yr 50% isaf o ran datblygiad mathemategol. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn datblygiad mathemategol, a rhwng y 50% a'r 25% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, a datblygiad mathemategol.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni lefelau'n uwch na'r ddisgwyl (deilliant 6) ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer tri maes dysgu yn 2013. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol, a rhwng y 50% a'r 25% uchaf mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol.

Cyfnod allweddol 2

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013, mae 100% o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd). Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae 100% o'r disgyblion hefyd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y

pynciau craidd ar wahân. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwyliedig yn 2013 yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y ddwy iaith, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae'r tuedd yn anwastad dros y pedair blynedd flaenorol.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ag ysgolion tebyg o ran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd a'r pynciau ar wahân yn 2013. Yn y pedair blynedd flaenorol, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% isaf.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni lefelau'n uwch na'r disgwyl, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y pedwar pwnc craidd yn 2013. Yn y pedair blynedd flaenorol, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Dros gyfnod o bedair blynedd, nid oes patrwm amlwg o wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched, nac ychwaith o gymharu disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda'r gweddill.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	
I feel safe in my school.	65	64 98%	1 2%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	65	65 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	65	65 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	65	65 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	65	65 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	64	63 98%	1 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	65	65 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	65	65 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	65	61 94%	4 6%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	65	63 97%	2 3%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	64	63 98%	1 2%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		78%	22%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	65	64 98%	1 2%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree	Ddim yn gwybod Don't know	
Overall I am satisfied with the school.	24	15 62%	8 33%	1 4%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	24	16 67%	8 33%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	24	18 75%	4 17%	1 4%	0 0%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	24	18 75%	6 25%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	0%		
Pupils behave well in school.	24	9 38%	15 62%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	24	17 71%	7 29%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	24	17 71%	6 25%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	24	16 67%	7 29%	0 0%	0 0%	1	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	23	17 74%	5 22%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	24	18 75%	5 21%	0 0%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	24	17 71%	7 29%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	21	14 67%	6 29%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	35%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree	Ddim yn gwybod Don't know	
I am kept well informed about my child's progress.	24	16 67%	7 29%	0 0%	1 4%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	24	17 71%	7 29%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	24	14 58%	9 38%	1 4%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	24	13 54%	11 46%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		55%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	20	11 55%	6 30%	1 5%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn wedi'i barato'i'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	24	10 42%	10 42%	3 12%	1 4%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	22	16 73%	5 23%	1 5%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	32%	3%	1%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Huw Watkins	Arolygydd Cofnodol
Edward Goronwy Morris	Arolygydd Tîm
John Dyer	Arolygydd Lleyg
Delyth Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Gareth Lloyd Parry	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.